

Datganiad o Reswm – Amrywiad i Orchymyn Traffig Arbrofol - Trên Tir ym Mhorthcawl.

Yn dilyn cais a dderbyniwyd gan y Rheolwr Cyrchfan a Thîm Gweithrediadau'r Arfordir ar gyfer diwygio'r cyfyngiadau traffig presennol ym Mhorthcawl er mwyn hwyluso gweithredu Trên Tir, gwnaed Gorchymyn Traffig Arbrofol ar y 2 Mai 2021.

Ar ôl gwneud y gorchymyn, derbyniodd y Cyngor sylwadau yn gofyn am amrywio'r Gorchymyn Arbrofol fel a ganlyn ar sail diogelwch ar y ffyrdd ac er mwyn gwella'r gwasanaethau presennol a ddarperir ar fysiau a'r ffyrdd:

1.1 gynnwys eithriad i ganiatáu i fysiau aros ar y rhannau canlynol o'r ffordd:

Esplanade – Ar ei ochr ddeheuol tua'r gorllewin 31m (34 llath) o bwynt yn unol â chyffordd Picton Avenue am bellter o tua 30 metr (32.5 llath).

Promenâd y Dwyrain – Ar ochr y Gogledd Tua'r Dwyrain 28.3m (40 llath) o'i chyffordd â Portway am bellter o tua 30 metr (32.5 llath).

Promenâd y Dwyrain – Ar ei ochr ddeheuol tua'r dwyrain 43m (47 llath) o'i chyffordd â Portway am bellter o tua 30 metr (32.5 llath).

2. Ymestyn oriau gweithredu'r cyfyngiad dim stopio ar y ffyrdd canlynol o

10am-7pm i 9am i 9pm:

Promenâd y Dwyrain – Ar ochr y Gogledd Tua'r Dwyrain 28.3m (40 llath) o'i chyffordd â Portway am bellter o tua 30 metr (32.5 llath).

Promenâd y Dwyrain – Ar ei ochr ddeheuol tua'r dwyrain 43m (47 llath) o'i chyffordd â Portway am bellter o tua 30 metr (32.5 llath).

Bydd yr amrywiad i'r gorchymyn arbrofol yn caniatáu ymgynghori â'r cyhoedd o fewn 6 mis cyntaf y gorchymyn amrywio ac yn caniatáu i'r cynnig gael ei werthuso yn ystod y cyfnod arbrofol i fonitro'r effaith y gallai'r trên tir ei chael o ran tagfeydd/diogelwch y briffordd.

Bydd y Cyngor yn ystyried maes o law a ddylid parhau â darpariaethau'r Gorchymyn Arbrofol, fel y'u hamrywiwyd, mewn grym am gyfnod amhenodol.

Mae'r manau aros trên tir dynodedig arfaethedig sydd i'w datblygu wedi'u cynnwys ar y lluniau amgaeedig:

BX9 Rev 1 (dyddiedig 10/2/21),

CB12 Rev 1(dyddiedig 10/2/21),

CC11 Rev 1 (dyddiedig 20/9/21) a

CC12 Rev 1 (dyddiedig 20/9/21).

Mae'r amrywiad i'r gorchymyn traffig arbrofol i'w weithredu yn unol ag Adran 9 a 10 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y mae'n ymddangos i'r Awdurdod ei bod yn hwylus ei wneud am y rhesymau a nodir yn Adran 1 (a), ac (c) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a nodir fel a ganlyn:

a) i osgoi perygl i bersonau neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffordd arall, neu i atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi, (Adran 1 (a)).

b) ar gyfer hwyluso symudiad traffig o unrhyw ddsbarth (gan gynnwys cerddwyr) ar hyd y ffodd neu unrhyw ffordd arall, (Adran 1(c)).

Wrth benderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn ei gwneud yn ofynnol

i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984, er mwyn (i'r graddau y mae'n ymarferol gan roi sylw i'r materion a bennir yn adran 122(2)) sicrhau bod traffig cerbydau a thraffig eraill (gan gynnwys cerddwyr) yn symud yn gyflym, yn hwylus, ac yn ddiogel, ac i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd ac oddi ar y briffordd.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn adran 122 (2) yw:-

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i fangreoedd;
2. Effaith cerbydau masnachol trwm ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni, a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar y defnydd o ffyrdd gan gerbydau masnachol trwm, a hynny er mwyn diogelu neu wella amwynderau'r ardaloedd lle mae'r ffyrdd yn rhedeg drwyddynt;
3. Y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a baratowyd o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;
4. Pwysigrwydd hwyluso hynt cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau diogelwch a hwylustod i'r personau sy'n defnyddio neu sy'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;
5. Unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos yn berthnasol i'r Cyngor.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd a osodwyd gan a122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'r cais wedi'i werthuso ac ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno'r gorchymyn traffig arbrofol, fel y'i hamrywiwyd.

Bwriedir cynnwys y cyfyngiadau hyn yng Ngorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Mannau Llwytho a Pharcio)(Gorfodi Sifil) 2013, fel y'i diwygiwyd, yn unol â Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Thraffig Awdurdodau Lleol. (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Bydd y cyfyngiadau parcio yn cael eu llofnodi yn unol â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016 a bydd y marciau ffordd yn cydymffurfio â gofynion y cyfarwyddiadau hynny.